PRIF SWYDDFA
54 Stryd y Dyffryn
DINBYCH
LL16 3BW
☎ 0345 230 3140
🖷 0345 230 3145
taiclwyd@taiclwyd.com

CYMDEITHAS TAI CLWYD

SWYDDFA ARDAL
Uned 8 Gweithdai Penllyn
Heol Aran, Y BALA
LL23 7SP
☎ 0345 230 3150
🖷 0345 230 3145
bala@taiclwyd.com

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Os ydych angen y llyfryn yma mewn fformat gwahanol e.e. ar dâp, mewn Braille, ffoniwch, e-bostiwch neu galwch heibio eich swyddfa leol.

CYNNWYS

	Rhif Tudalen
1. Pwy yw Cymdeithas Tai Clwyd?	2
2. Pwy all ymgeisio am eiddo rhent?	2
3. Sut i wneud cais	3
4. Pa dystiolaeth sydd ei angen?	4
5. Sut bydd y Gymdeithas yn blaenoriaethu ceisiadau?	5
6. Y broses gosod	6
7. Beth am gyfnewid tŷ?	6
8. Beth i'w wneud os ydych yn anfodlon gyda'n gwasanaeth	7
9. Sut byddwn yn dyrannu pwyntiau	8 - 11
10. Cysylltiadau defnyddiol	11
11. Rhestr Eiddo Rhent Cymdeithas Tai Clwyd	Canol

1. PWY YW CYMDEITHAS TAI CLWYD?

Mae gan Gymdeithas Tai Clwyd stoc o dai, byngalos a fflatiau o fewn ardal eang yn Sir Ddinbych, Gwynedd, Fflint, Wrecsam, Conwy a Phowys. Am fanylion o'r math o eiddo sydd gennym fesul ardal, gweler y tudalennau canol. Mae dwy swyddfa yn gofalu am yr ardaloedd, sef y brif swyddfa yn Ninbych a swyddfa ardal yn Y Bala.

Mae Cymdeithas Tai Clwyd yn gymdeithas dai elusennol sy'n cartrefu pobl mewn angen, yn enwedig yr henoed a theuluoedd ifanc ar incwm isel. Byddwn hefyd yn cartrefu pobl sydd angen cefnogaeth. Mae'r Gymdeithas hefyd yn adeiladu tai i'w gwerthu i bobl na allent fforddio prynu tŷ ar y farchnad agored.

Mae gwaith y Gymdeithas yn cael ei reoli gan Fwrdd Rheoli sy'n cynnwys aelodau gwirfoddol a thenantiaid. Cyflogir staff llawn amser i redeg y Gymdeithas o ddydd i ddydd.

Mae'r Gymdeithas wedi ei chofrestru gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac yn defnyddio'r grantiau sydd ar gael i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig tuag at adeiladu/prynu eiddo. Bydd gweddill yr arian yn cael ei fenthyg gan Gymdeithasau Adeiladu a Banciau ar ffurf morgais, gyda chyfran o rent y tŷ yn mynd i dalu'r morgais.

CYFRANOGIAD
Mae Cymdeithas Tai Clwyd yn cydnabod bod cyfranogiad tenantiaid yn dod â budd i'r gymdeithas gyfan ac i'r tenantiaid a'r cymunedau a wasanaethir. Golyga hyn ein bod yn ceisio annog ein tenantiaid i ymaelodi â'r Gymdeithas ac i gymryd rhan yng ngwaith a rheolaeth y Gymdeithas. Rydym yn cynnig amrediad eang o ddulliau cyfranogiad fel y gallwch chi ddewis ar ba lefel yr hoffech chi gymryd rhan yng ngwaith y Gymdeithas. Os ydych eisiau gwybod mwy am hyn, cysylltwch â'r swyddfa leol.

2. PWY ALL YMGEISIO AM EIDDO RHENT?

Pwy all ymgeisio?

- Preswylwyr y DU sydd dros 16 oed
- Dinasyddion Prydeinig
- Dinasyddion Ardal Economaidd Ewrop
- Cyn breswylwyr Monserrat
- Ceiswyr lloches, pobl gyda hawl gadael ac aros a dinasyddion y Gymanwlad

Pwy na chaiff ymgeisio?

- Pobl sy'n ddarostyngedig i reolaeth mewnfudo
- Ymgeiswyr neu aelodau o'u teuluoedd y bu eu hymddygiad o safon annerbyniol yn y gorffennol. Mae gan yr ymgeiswyr hyn hawl i apelio, a gallant ail-wneud cais am lety ar unrhyw adeg trwy ddarparu prawf fod eu hymddygiad wedi newid.

Mae Cymdeithas Tai Clwyd yn ceisio dyrannu ei heiddo i ymgeiswyr ar y rhestr aros mewn modd sydd mor deg â phosibl, gan sicrhau cydraddoldeb i bob ymgeisydd. Gallwch wneud cais am gopi llawn o'r Polisi Gosod, ac mae'r Polisi ar gael mewn gwahanol fformat.

3. SUT I WNEUD CAIS

PETHAU SYDD YN RHAID I CHI EU GWNEUD

Cwblhau ffurflen gais
(unai mewn llawysgrifen wedi ei anfon i'r swyddfa neu trwy gwblhau ffurflen gais ar lein)
os ydych angen help i lenwi ffurflen gais, cysylltwch â'r swyddfa

Llofnodi'r ffurflen gais
Mae'n rhaid i ymgeiswyr sydd wedi cwblhau ffurflen gais ar lein lofnodi eu cais yn ystod ymweliad cartref pan fyddant yn cael eu hystyried am eiddo

Darparu prawf o'ch hunaniaeth, cyfeiriad cyfredol ac incwm

Cyflwyno tystiolaeth
i gadarnhau materion megis tor-perthynas, hawliau cystodaeth, statws digartrefedd a ffactorau meddygol.
Cofiwch fod arnoch angen amgàu gwybodaeth ychwanegol pan welwch yr icon **g**
(gweler yn adran 4 beth sy'n dderbyniol)

PETHAU SYDD YN RHAID I'R GYMDEITHAS WNEUD

Bydd Cymdeithas Tai Clwyd yn gwirio a ydych yn gymwys
(gweler pwy all ymgeisio a pwy na chaiff ymgeisio)

Byddwn yn prosesu ffurflen gais newydd o fewn 10 niwrnod gwaith o dderbyn y ffurflen, os ydych chi wedi darparu pob tystiolaeth ddogfennol

Byddwn yn eich hysbysu os na fyddwch wedi darparu digon o dystiolaeth, a byddwch yn cael 10 diwrnod gwaith arall i wneud hyn. Byddwch yn derbyn pwyntiau yn unol â'n system bwyntiau

Byddwn yn eich hysbysu o gyfanswm y pwyntiau a ddyfarnwyd i chi, a byddwch yn derbyn Cylchlythyr dwywaith y flwyddyn a fydd yn rhoi amcan ynghylch y tebygolrwydd o gael eich ailgartrefu

Adolygir y rhestr aros bob 6 mis
Byddwn yn gohebu â chi i ofyn os ydych eisiau parhau ar y rhestr aros. Mae'n hanfodol eich bod yn ymateb i'r gohebiaeth. Os nad ydych yn ymateb, byddwn yn diddymu eich cais ac yn cael gwared â'ch cais ynghŷd â'r holl dystiolaeth a ddarparwyd. Cofiwch adael i ni wybod os bydd newid yn eich amgylchiadau ar unrhyw achlysur, e.e. plentyn ychwanegol, cyfeiriad newydd.

Anfonir cylchlythyr i chi bob 6 mis

4. PA DYSTIOLAETH SYDD EI ANGEN?

Dyma **enghreifftiau** o dystiolaeth derbyniol.
Sylwer fod rhaid iddynt oll fod yn nodi dyddiad cyfoes

- **Hunaniaeth:** Copi o dystysgrif geni, pasport neu drwydded yrru.
- **Cyfeiriad presennol:** Bil Treth y Cyngor neu Bil Trydan/Nwy
- **Cyfeiriad blaenorol:** Sicrhewch os gwelwch yn dda eich bod yn nodi manylion eich cyn gyfeiriadau yn llawn (gan gynnwys cod post) ar y ffurflen gais, a darparu tystiolaeth megis gohebiaeth swyddogol, bil treth cyngor, datganiad banc yn dangos cyn gyfeiriad.
- **Beichiogrwydd:** Cerdyn cyn-geni, Tystysgrif Beichiogrwydd, Ffurflen MATB1
- **Cyflog:** Slipiau Cyflog, P60, Llythyr gan eich Cyflogwr
- **Budd-daliadau:** Llythyrau gan Adran Gwaith a Phensiynau, Datganiad banc
- **Cynilion / Cyfalaf:** Datganiad Banc/Cymdeithas Adeiladu, tystysgrif cyfranddaliadau
- **Perchnogaeth eiddo neu dir:** Datganiad Morgais, Llythyr gan Gyfreithiwr, Gweithredoedd
- **Digartrefedd:** Cytundeb Tenantiaeth, Llythyr gan y Cyngor yn nodi eich statws digartref, rhybudd dilys, llythyr gan gyflogwr yn nodi bod llety ynghlwm â swydd, llythyr gan Shelter
- **Fforddiadwyedd neu ddaliadaeth ansicr:** Copi o Gytundeb Tenantiaeth neu lythyr swyddogol gan landlord.
- **Ffactorau Meddygol:** Mae llythyr gan y meddyg teulu neu ymgynghorydd ysbyty yn nodi sut y byddai ail-gartrefu yn gwella eich iechyd yn **angenrheidiol**. *Tydi llythyr yn cefnogi eich cais yn unig ddim yn ddigonol, rhaid iddo gynnwys gwybodaeth penodol am eich cyflwr iechyd.*
- **Angen symud i leoliad penodol:** Llythyr gan gyflogwr, llythyr gan aelod o'r teulu/gweithiwr cefnogol yn nodi anghenion cefnogaeth
- **Cefnogaeth presennol:** Llythyr gan Ymwelydd Iechyd, Nyrs Seiciatryddol Cymunedol, Gweithiwr Cymdeithasol, Nyrs Ardal, Warden, asiant annibynnol e.e. CAIS (Asiantaeth Cyffuriau ac Alcohol) neu GISDA (Asiant Cefnogi Pobl Ifanc yng Ngwynedd) – dylai'r llythyr nodi manylion y gefnogaeth
- **Ffactorau cymdeithasol:** Rhifau digwyddiad yr Heddlu a manylion digwyddiadau; Llythyr/ Tystysgrif i fabwysiadu/maethu plant, Llythyr gan Lys yn nodi cystodaeth plant; Llythyr gan Cymorth i Ferched os yn dioddef Trais yn y Cartref

SYLWER: Os nad ydych yn darparu'r tystiolaeth angenrheidiol, ni fyddem yn gallu cofrestru eich cais / dyrannu pwyntiau

5. SUT BYDD Y GYMDEITHAS YN BLAENORIAETHU CEISIADAU?

Rhaid rhoi blaenoriaeth resymol i'r canlynol:-

- Pobl sydd yn ddigartref (Deddf Tai 1996, Rhan 7)
- Pobl y mae awdurdodau lleol wedi eu lleoli mewn llety tros-dro, ac y mae dyletswydd arnynt i'w hail-gartrefu mewn llety parhaol.
- Pobl sy'n preswylio mewn tai afiachus neu orlawn
- Pobl sydd â ffactorau meddygol neu les
- Pobl y mae arnynt angen symud i ardal benodol, ac y byddai methu â diwallu'r angen hwnnw'n achosi caledi iddynt

Blaenoriaethau Ychwanegol

- Ar gyfer cysylltiad lleol
- Adnoddau ariannol sydd gan ymgeiswyr i gwrdd â chostau tai
- Trais neu fygwth trais, sy'n cynnwys cam-drin hiliol a rhywiol, aflonyddwch a dioddefwyr troseddau, a trais yn y cartref
- Sefyllfaoedd arbennig (dyfernir pwyntiau rheoli)

Bydd pwyntiau yn cael eu dyfarnu yn ddibynnol ar dystiolaeth.

Pwyntiau Cosb

Diddymir pwyntiau am ymddygiad annerbyniol, ac ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sydd â'r adnoddau ariannol i gwrdd â'u costau tai trwy fodd arall yn hytrach na thai cymdeithasol.
Byddwn yn hysbysu'r ymgeiswyr o'r camau mae angen iddynt eu cymryd er mwyn adfer y pwyntiau, a gofynnir iddynt ddarparu tystiolaeth.

Sut mae tenantiaid yn cael eu dethol?

Mae Cymdeithas Tai Clwyd yn cyd-weithio'n agos â'r awdurdodau tai lleol, ac rydym yn gweithredu cytundebau enwebu. Rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeisydd gyda'r nifer uchaf o bwyntiau.
Bydd pob penderfyniad ynglŷn â dyrannu yn cael ei wneud gan Swyddog Lletya ac Uwch Swyddog Lletya.

Ffactorau Eraill

Tenantiaeth unigol neu denantiaeth ar y cyd
Rydym fel arfer yn caniatáu tenantiaeth ar y cyd, gellir ystyried peidio â chaniatáu tenantiaeth ar y cyd pan fo tystiolaeth o drais yn y cartref yn y gorffennol

Trosglwyddiadau
Bydd tenantiaid presennol Cymdeithas Tai Clwyd yn cael eu hystyried ochr yn ochr ag ymgeiswyr eraill.

Cartrefi a addaswyd
Mae rhai eiddo yn addas ar gyfer tenantiaid anabl - dyrennir y mathau hyn o eiddo i'r sawl a allai wneud y defnydd gorau o'r cyfleusterau.

Tai â Chefnogaeth
Rydym ni, neu asiantaethau sy'n gweithio ar ein rhan, yn cynnig cymorth rheolaeth ychwanegol i rai tenantiaid. Os ydych angen cymorth rheolaeth ychwanegol, cysylltwch â'r Tîm Tai â Chefnogaeth.

Tai Cysgodol
Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr 55 oed a hŷn. Ar gyfer unedau sydd â warden, rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr 60 oed a hŷn, neu ymgeiswyr sydd ag anabledd.

Polisi Gosod Lleol
Mae rhai eiddo yn cael eu dyrannu trwy Bolisi Gosod Lleol gyda maen prawf cymhwyster penodol sydd yn wahanol i Bolisi Gosod Tai Clwyd. Mae'r polisïau hyn wedi eu creu er mwyn ystyried anghenion y gymuned benodol .

Amod 106
Mae rhai eiddo wrth eu datblygu yn cynnwys amod a gyfeirir ato fel 'Amod 106' a orfodir arnynt gan yr Awdurdod Lleol wrth roi caniatâd cynllunio. Mae'r amod hwn yn nodi fod yn rhaid i'r holl breswylwyr fod â chysylltiad lleol, ac mae hyn yn cael blaenoriaeth dros Bolisi Gosod Cymdeithas Tai Clwyd.

6. Y BROSES GOSOD

Hysbysir yr ymgeisydd llwyddiannus ar ddiwrnod y penderfyniad
Bydd gan yr ymgeisydd bum niwrnod gwaith i dderbyn neu i wrthod y cynnig o denantiaeth. Hysbysir ymgeiswyr aflwyddiannus o fewn 10 niwrnod gwaith.

Os yn bosibl, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael cyfle i weld yr eiddo cyn derbyn y cynnig. Fodd bynnag, bydd yn derbyn taflen wybodaeth gyda maint cyffredinol yr ystafelloedd a.y.b.

Cyn i'r Tenantiaeth ddechrau
Bydd ymgeiswyr unai yn derbyn Tenantiaeth Aswiriedig neu Denantiaeth Cychwynnol – bydd copi o'r cytundeb perthnasol (er gwybodaeth), yn cael ei gynnwys gyda'r cynnig o denantiaeth
(a gellir ei anfon trwy e-bost).

Dechrau y Denantiaeth
Bydd y Swyddog Lletya yn cyfarfod y tenant newydd yn yr eiddo i lofnodi Cytundeb Tenantiaeth a chofnodi cyflwr yr eiddo. Bydd hefyd yn cyflwyno Pecyn Tenantiaeth sy'n cynnwys Llawlyfr Tenantiaid a Gwarant i Breswylwyr Cymdeithasau Tai.

Bydd y Swyddog Lletya yn cynnal ymweliadau pellach ymhen 6 wythnos a 6 mis.

7. BETH AM GYFNEWID TŶ?

Gall tenant gyfnewid tŷ trwy aseiniad pan fydd dau denant yn dymuno cyfnewid. Nid yw'n ofynnol i'r ddau denant fod gyda'r un landlord. Yn amlwg, rhaid sicrhau nad oes gorboblogi yn cael ei achosi na thanboblogi oherwydd y newid. Rhaid cael caniatâd y ddau landlord cyn mynd ati i gyfnewid.

Mae Cymdeithas Tai Clwyd nawr yn aelodau o **homeswapper.co.uk**, ac os ydych yn denant i ni, yna byddwn yn talu eich ffi aelodaeth. Mae'n rhaid i chi hefyd gael mynediad i gyfrifiadur sydd wedi cysylltu i'r we i gofrestru. Os nad oes gennych fynediad, mae'n bosib y gallwch fynd ar y we yn eich llyfrgell leol. Fel arall, cysylltwch â'ch Swyddog Gweinyddol Tai.

Mae dewisiadau tai eraill ar gael. Efallai eich bod yn gymwys ar gyfer dewisiadau tai eraill yn hytrach na rhentu e.e. cynllun cymorth prynu, achub morgais, rhanberchenogaeth. Cysylltwch â'r Tîm Tai Fforddiadwy am ragor o fanylion.

8. BETH I'W WNEUD OS YDYCH YN ANFODLON GYDA'N GWASANAETH

Mae gennych hawl i Adolygiad

Mae Cymdeithas Tai Clwyd yn dilyn "gweithdrefn deg", ac mae gan pob ymgeisydd hawl i holi am adolygu'r penderfyniadau a wnaed (drwy wrandawiad llafar neu gyflwyniad ysgrifenedig) o fewn 10 diwrnod gwaith o ddyddiad yr hysbysiad. Gwneir yr adolygiad gan berson nad oedd yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol.

Cysylltwch â'r Gymdeithas os ydych eisiau copi llawn o'r broses apêl.

Sut i gwyno

Mae'n bwysig ein bod yn cael gwybod gennych pan mae ein gwasanaeth yn anfoddhaol. Bydd hyn o gymorth i'r Gymdeithas allu gwella'r gwasanaeth. Rydym yn awyddus i ddysgu o'n camgymeriadau.
Er ein bod yn ceisio rhoi'r gwasanaeth gorau posib i'n tenantiaid a'r cyhoedd, mae problemau yn siŵr o godi o bryd i'w gilydd.
Ond fe all cwyn syml, e.e. anghytuno â'ch pwyntiau, gael ei drafod trwy gysylltu â'r tîm lletya.
Nid oes angen i fater syml fel hyn fynd trwy'r drefn cwynion ffurfiol.

Byddwn yn ymchwilio pob cwyn ffurfiol yn deg a thrwyadl gan geisio rhoi ateb llawn a phrydlon o fewn 10 diwrnod gwaith.
Cysylltwch â'r Gymdeithas os ydych eisiau copi llawn o'r drefn gwyno.

Os ydych yn dymuno, gallwch fynd yn syth at yr Ombwdsmon i gwyno; dyma eu manylion cyswllt:

Ombwdsom Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ
☎ 01656 641150
🖷 01656 641199
🖱 ask@ombudsman-wales.org.uk
💻 www.ombudsman-wales.org.uk

Neu cysylltwch â Chanolfan Gynghori (CAB) neu gyfreithiwr i gael cyngor.

Canmoliaeth

Ar y llaw arall, os ydych yn hapus gyda'n gwasanaeth, rydym yn croesawu sylwadau i gadarnhau hynny, a fydd yn gymorth i'r Gymdeithas sicrhau cystal gwasanaeth yn y dyfodol.

9. SUT BYDDWN YN DYRANNU PWYNTIAU

PRESWYL

i)	Wedi byw oddi fewn ffin y cyngor cymuned/tref ble mae'r ymgeisydd yn dymuno byw 4 pwynt y flwyddyn hyd uchafswm o	20
ii)	Gweithio oddi fewn ffin y cyngor cymuned/tref ble mae'r ymgeisydd yn dymuno byw 3 pwynt y flwyddyn hyd uchafswm o	18
iii)	Gyda theulu agos (Diffiniad – tad, mam, mab, merch, brawd, chwaer) yn byw oddi fewn ffin y cyngor cymuned ble mae'r ymgeisydd yn dymuno byw, ac wedi bod yn byw ers cyfnod o leiaf 5 mlynedd cyn y cais	5
iv)	Rhyddhau o Fyddin E.M gyda'r dyddiad rhyddhau ymhen 12 mis, gyda chysylltiad lleol fel i) uchod. 4 pwynt am bob blwyddyn o gysylltiad hyd at gyfanswm o	20
v)	Byw neu weithio o fewn y Sir 1 pwynt y flwyddyn hyd uchafswm o	5
vi)	Byw am o leiaf 10 mlynedd yn y gorffennol oddi fewn ffin y cyngor cymuned/tref	10
vii)	Byw am o leiaf 10 mlynedd yn y gorffennol oddi fewn y Sir	5
viii)	Ceisiadau dros ffin y cyngor sir (h.y. y rhai hynny ble mae eu prif dref oddi fewn ffin cyngor sir wahanol i'r un maent yn byw ynddi) 1 pwynt y flwyddyn hyd uchafswm o	5

FFORDDIADWYEDD

i)	Costau tai yn cyfrif am fwy na 40% o incwm teulu'r ymgeisydd. Bydd cymariaethau marchnad dai lleol hefyd yn cael eu hystyried.	5
ii)	Pobl yn derbyn budd-dâl, ond y budd-dâl tai ddim yn ddigon i dalu'r rhent yn gyfan oherwydd cynnydd rhent, diweithdra neu lwfans rhent lleol	5
iii)	Pobl sydd yn byw gartre ac yn methu fforddio symud allan (i gynnwys teuluoedd newydd)	5

DALIADAETH

i)	Personau sydd yn anfwriadol digartref ac mewn angen blaenoriaethol	30
ii)	Personau sydd yn anfwriadol digartref, ond heb fod mewn angen blaenoriaethol	20
iii)	Personau sydd yn ddigartref bwriadol, ond mewn angen blaenoriaethol	10
iv)	Personau sydd yn ddigartref bwriadol ond nid mewn angen blaenoriaethol	5
v)	Personau sydd wedi derbyn rhybudd meddiant (A21 Deddf Tai 1988), ond nid o fewn y 28 diwrnod olaf o'r rhybudd yn dod i ben	15
vi)	Deiliadaeth ansicr h.y. eiddo clwm, lodjar	15

Yn ychwanegol i'r uchod,

vii)	Personau sydd wedi eu lleoli mewn llety dros dro gan yr awdurdod lleol, ac wedi byw yno am 1 mlynedd (+10 pwynt am bob blwyddyn ychwanegol yn trigo yno)	10

Rhaid i'r uchod gael eu gwirio yntau drwy hysbysiad gan yr Awdurdod Lleol, gopi o'r rhybudd, neu lythyr gan y landlord (i lodjars a llety clwm yn unig).

Dylid annog pob ymgeisydd digartref i wneud cais i'w awdurdod tai lleol i asesu eu statws digartrefedd. Bydd gan bob awdurdod lleol broses o flaenoriaethu ymgeiswyr digartref.

viii)	Personau mewn llety tymor byr (tenantiaeth aswiriedig byrlys)	5

9. SUT BYDDWN YN DYRANNU PWYNTIAU (parhad)

TANFEDDIANNU

i)	Tenantiaid Tai Cymdeithasol - Am bob llofft nad oes ei hangen ar y tenant sydd yn dymuno symud i eiddo llai. Mae hyn i sicrhau defnydd gorau o dai cymdeithasol prin	5
ii)	Daliadaeth eraill - Ymgeiswyr dros 55 oed, ar gyfer pob llofft nad ydynt eu hangen	2

CYFLEUSTERAU (ond sylwer na ddyrannir pwyntiau cyfleusterau i ymgeiswyr digartref)

i)	Diffyg llwyr o:- Toiled mewnol Bath neu gawod Adnoddau coginio Gwres canolog Sinc i'r gegin Dŵr oer/poeth	 5 5 5 5 5 5
ii)	Rhannu Cyfleusterau:- Bath neu gawod Cegin Toiled	 3 3 3
iii)	Cyflwr yr eiddo (unrhyw denantiaid ac ymgeiswyr dros 55 oed neu berchnogion sydd yn gallu dangos prawf na allent wneud y gwaith) Tamprwydd Adfeiliad cyffredinol Cyflenwad peryglus o wasanaethau Prinder offer arbed tân (mewn fflatiau) Pla fermin	 3 3 5 5 3

(rhaid gwirio'r uchod yn ystod yr ymweliad cartref)

GORBOBLOGI

Bydd 15 pwynt yn cael ei dyrannu am bob llofft sydd ei angen:-

i)	Pob person sengl dros 8 oed sydd yn gorfod rhannu gydag unrhyw aelod arall o'r teulu nad yw o'r un rhyw).	15
ii)	Ar gyfer pob person sengl dros 16 oed pa un ai a yw'r ystafell yn cael ei rannu gyda rhywun o'r un rhyw ai peidio.	15
iii)	I frawd/chwaer o'r un rhyw sydd yn rhannu, ond bod mwy na 5 mlynedd o wahaniaeth yn eu hoedran h.y. rhywun yn mynychu ysgol uwchradd yn rhannu gyda brawd/chwaer iau.	15
iv)	Am bob plentyn dros 12 mis oed sydd yn rhannu llofft â rhieni	15
v)	Am bob plentyn dan 12 mis oed nad yw ei got yn gallu cael ei osod yn gyffyrddus yn llofft ei rieni, ac nad oes opsiwn arall ar gael i oresgyn y broblem h.y. rhieni yn rhannu gyda deiliaid eraill, neu gyda'u rheini eu hunain, ac nad oes disgwyl iddynt gyfnewid ystafelloedd	15
vi)	Ar gyfer llofft ychwanegol sydd ei angen ar gyfer gofalydd	15

9. SUT BYDDWN YN DYRANNU PWYNTIAU (parhad)

MEDDYGOL

i)	Ble mae ail gartrefu yn angenrheidiol i wella iechyd yr ymgeisydd neu aelod o'r teulu h.y. cyflwr tymor hir nad yw'n derfynol, anabledd neu salwch y gellir gwella ohono	10
ii)	Ble mae ail gartrefu yn angenrheidiol ar fyrder i wella iechyd yr ymgeisydd neu aelod o'r teulu h.y. salwch, anabledd neu gyflwr meddygol difrifol, gan gynnwys afiechyd terfynol, anabledd parhaol neu afiechyd sy'n gwaethygu, mewn ysbyty ac yn methu dychwelyd adref, yn methu cael mynediad i gyfleusterau angenrheidiol e.e. toiled, bathio, afiechyd meddyliol a all gael ei leddfu	30

LLES

i)	Personau sydd angen symud i leoliad penodol, lle y gallai analluedd i ddiwallu'r angen yn achosi caledi (i'w hunain neu i eraill). Gan gynnwys person sydd angen symud er mwyn cynnig neu dderbyn gofal, i gael mynediad i driniaeth feddygol arbenigol, neu i gymryd gwaith neu gyfle hyfforddiant penodol neu i sefydlu cartref am y tro cyntaf (personau sengl ifanc).	20

CYMDEITHASOL

i)	Ble mae personau angen symud ar fyrder oherwydd problemau cymdeithasol neu dai difrifol Harasiaeth Digwyddiadau hiliol Trais domestig neu arall Trais rhywiol Ymddygiad gwrthgymdeithasol Mabwysiadu neu maethu (Angen cadarnhad ysgrifenedig)	 20 20 20 20 20 20
ii)	Teuluoedd gyda phlant heb ardd	5
iii)	Teuluoedd gyda phlant dan 12 oed yn byw uwchben y llawr gwaelod	5
iv)	Personau dros 55 mlwydd oed angen llety llawr gwaelod oherwydd anableddau afiechyd	5
v)	Teuluoedd yn byw mewn lleoliad peryglus e.e. byw gyda mynediad yn agor yn syth i ffyrdd peryglus, grisiau serth a.y.b.	5
vi)	Diffyg cyfleusterau oherwydd lleoliad e.e. dim siop, ysgol na gwasanaethau bws rheolaidd	5
vii)	Teuluoedd yn byw ar wahân oherwydd prinder lle	5
viii)	Tor Perthynas	5
ix)	Rhannu Cartref (ddim yn gymwys os yn rhannu â theulu)	5

AMSER AR Y RHESTR AROS

i)	Amser mae'r ymgeisydd wedi bod ar y rhestr aros. 1 pwynt y flwyddyn hyd uchafswm o	10

PWYNTIAU RHEOLAETH

i)	Pwyntiau ond i'w dyrannu dan amgylchiadau ble byddai sicrhau eiddo i'r ymgeisydd yn gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai, neu ble bod ail gartrefu yn fater brys ac nad yw'r pwyntiau sydd eisoes wedi eu gwobrwyo dan y system bwyntiau yn adlewyrchu'r brys	50

9. SUT BYDDWN YN DYRANNU PWYNTIAU (parhad)

PWYNTIAU COSB

i)	Am bob £100.00 o ddyled rhent/cost cynnal a chadw sydd yn ddyledus i landlord cymdeithasol presennol neu flaenorol (hyd at 5 mlynedd ynghynt) 4 pwynt ychwanegol hyd uchafswm o	-20
ii)	Am bob £1,000.00 sydd yn ddyledus i landlord cymdeithasol blaenorol	-10
iii)	Os yw'r ymgeisydd yn amodol ar ymglymiad ffurfiol gan swyddog ymddygiad gwrthgymdeithasol y landlord cymdeithasol perthnasol Mân digwyddiadau - ddim yn ddifrifol, lefel isel cyson (e.e. Contract Ymddygiad Gwrthgymdeithasol) Digwyddiadau difrifol – ymwneud â'r Heddlu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol parhaol a throseddol - cosbau ffurfiol e.e. darostyngiad, Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Gwaharddeb	 -5 -10 -20
iv)	Ymgeiswyr sydd gyda'r adnoddau cyllidol i gyrraedd eu costau tai h.y elw o werthiant tai, cynilion	-20

Mae posib na fydd pwyntiau o dan iv) uchod yn cael eu tynnu os yw ymgeisydd dros 65 mlwydd oed, ac mae eu hanghenion cefnogaeth yn sylweddol, ac y byddai'n addas ar gyfer cefnogaeth ychwanegol gan warden.

10. CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

Cyngor Sir Ddinbych	01824 706000
Cyngor Gwynedd (Swyddfa Dolgellau)	01766 771000
Cartrefi Conwy - Swyddfa Ardal Bae Colwyn	01492 805600
Cartrefi Conwy - Swyddfa Ardal Llandudno	01492 805631
Cyngor Sir Powys - Ymholiadau Cyffredinol	01938 552828 / 01691 648381
Cyngor Sir Fflint	01352 752121
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	01978 292000 / 01978 315300
Cymdeithas Tai Wales & West	0800 0522526
Cymdeithas Tai Eryri	01286 881588
Cymdeithas Tai Gogledd Cymru	01492 572727
Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru	01686 627476 / 0300 111 3030
Cymdeithas Tai Clwyd Alyn	01745 536800
Cartrefi Cymunedol	02920 557400 / 0300 303 1073
Care and Repair Cymru	01248 689240
Llinell Shelter (gwasanaeth 24 awr)	0845 0755005
Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid	01492 593046
Dŵr Cymru	0800 052 0130
Bwrdd Dŵr Dyffryn y Ddyfrdwy	01978 846946
Dŵr Hafren Trent	0845 750 0500
Scottish Power	0845 272 1212 / 0845 273 4444
Nwy Prydain	0800 072 8630
Adran Gwaith a Phensiynnau	0800 991234
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	0845 010 3300
Cyngor ar Bopeth - gweler y cyfeirlyfr ffôn am rif eich swyddfa leol	www.citizensadvice.org.uk

11. RHESTR EIDDO RHENT CYMDEITHAS TAI CLWYD

Rhestr yn gywir ar 30/06/10.
Cysylltwch â'r brif swyddfa yn Ninbych i drafod eiddo yn yr ardaloedd sydd mewn ysgrifen du, a'r swyddfa ardal yn Y Bala i drafod yr ardaloedd mewn ysgrifen gwyrdd.

GWYNEDD

Ardal / Area	Nifer/ Number	byngalo 1 llofft / 1 bedroom bungalow	byngalo 2 lofft / 2 bedroom bungalow	byngalo 3 llofft / 3 bedroom bungalow	byngalo 4 llofft / 4 bedroom bungalow	fflat 1 llofft / 1 bedroom flat	fflat 2 lofft / 2 bedroom flat	fflat 3 lofft / 2 bedroom bungalow	tŷ 1 llofft / 1 bedroom house	tŷ 2 lofft / 2 bedroom house	tŷ 3 llofft / 3 bedroom house	tŷ 4 llofft / 4 bedroom house
Aberdyfi	18						10				8	
Abermaw	34					8	4			4	17	1
Brithdir	1				1							
Bryncrug	1											1
Corris	5	1	3									4
Dolgellau	66		3		1		24			4	34	
Llandderfel	11		5	4						2		
Llanfor	2										2	
Llanuwchllyn	9					2	2	1		1	3	
Llwyngwril	2										2	
Tywyn	44		6				4			15	18	1
Y Bala	66					28	7		1	14	16	

11. LIST OF CYMDEITHAS TAI CLWYD RENTED PROPERTIES

List correct as at 30/06/2010
Please contact the Denbigh office to discuss the areas written in black and contact the office in Bala to discuss the areas written in green.

POWYS

Ardal / Area	Nifer/ Number	byngalo 1 llofft / 1 bedroom bungalow	byngalo 2 lofft / 2 bedroom bungalow	byngalo 3 llofft / 3 bedroom bungalow	byngalo 4 llofft / 4 bedroom bungalow	fflat 1 llofft / 1 bedroom flat	fflat 2 lofft / 2 bedroom flat	tŷ 1 llofft / 1 bedroom house	tŷ 2 lofft / 2 bedroom house	tŷ 3 llofft / 3 bedroom house	tŷ 4 llofft / 4 bedroom house
Llanerfyl	1									1	
Llanfair Caereinion	3									3	
Llanfyllin	17					4	3		6	4	
Llangedwyn	2									2	
Llanrhaedr ym Mochnant	6									6	
Llansanffraid yn Mechain	10			1	1				2	6	
Llansilin	6		2							4	
Meifod	4								3	1	
Llangadfan	4								4		

SIR FFLINT / FLINTSHIRE

Ardal / Area	Nifer/ Number	byngalo 1 llofft / 1 bedroom bungalow	byngalo 2 lofft / 2 bedroom bungalow	byngalo 3 llofft / 3 bedroom bungalow	byngalo 4 llofft / 4 bedroom bungalow	fflat 1 llofft / 1 bedroom flat	fflat 2 lofft / 2 bedroom flat	tŷ 1 llofft / 1 bedroom house	tŷ 2 lofft / 2 bedroom house	tŷ 3 llofft / 3 bedroom house	tŷ 4 llofft / 4 bedroom house	tŷ 5 llofft / 5 bedroom house
Caerwys	1									1		
Coedllai / Leeswood	10								2	6	2	
Ffrith	7		1				2			4		
Maesglas / Greenfield	1									1		
Gronant	7									7	1	
Mostyn	1										1	
Penyffordd	19						8		5	6		
Pontybodcyn	1								1			
Queensferry	1									1		
Shotton	2									2		
Treffynnon / Holywell	1									1		
Trelogan	2									2		
Treuddyn	9								4	5		
Y Fflint / Flint	22		14				6			2		
Yr Wyddgrug / Mold	6								1	5		
Yr Hob	1									1		

SIR DDINBYCH / DENBIGHSHIRE

Ardal / Area	Nifer/ Number	byngalo 1 llofft / 1 bedroom bungalow	byngalo 2 lofft / 2 bedroom bungalow	byngalo 3 llofft / 3 bedroom bungalow	byngalo 4 llofft / 4 bedroom bungalow	fflat 1 llofft / 1 bedroom flat	fflat 2 lofft / 2 bedroom flat	tŷ 1 llofft / 1 bedroom house	tŷ 2 lofft / 2 bedroom house	tŷ 3 llofft / 3 bedroom house	tŷ 4 llofft / 4 bedroom house	tŷ 5 llofft / 5 bedroom house
Bodelwyddan	1								1			
Bodffari	3									3		
Carrog	2									2		
Corwen	47		1			9			18	19		
Cyffylliog	6									5	1	
Cynwyd	1									1		
Dinbych / Denbigh	260	12		11		64	14	5	66	85	3	
Gallt Melyd / Meliden	1		1									
Gwyddelwern	1			1								
Henllan	17					2	1		7	7		
Llanarmon yn Iâl	2	2										
Llandegla	12								4	8		
Llandrillo	12								4	8		
Llandyrnog	12								5	7		
Llanelwy / St Asaph	15								2	13		
Llanfair Dyffryn Clwyd	5								1	4		
Llanferres	4									4		
Llangollen	147					41	53	6	16	31		
Llanrhaeadr	2		1					1				
Nantglyn	2									2		
Pentredŵr	3									3		
Prestatyn	5									3	1	1
Pwllglas	1									1		
Rhewl	6									6		
Rhuddlan	10					1	2		2	4	1	
Rhuthun / Ruthin	76		3			1	10	1	16	43	2	
Trefnant	18			1					7	10		
Y Rhyl	22		2						1	16	3	

SIR WRECSAM / WREXHAM COUNTY

Ardal / Area	Nifer/ Number	byngalo 1 llofft / 1 bedroom bungalow	byngalo 2 lofft / 2 bedroom bungalow	byngalo 3 llofft / 3 bedroom bungalow	byngalo 4 llofft / 4 bedroom bungalow	fflat 1 llofft / 1 bedroom flat	fflat 2 lofft / 2 bedroom flat	tŷ 1 llofft / 1 bedroom house	tŷ 2 lofft / 2 bedroom house	tŷ 3 llofft / 3 bedroom house	tŷ 4 llofft / 4 bedroom house	tŷ 5 llofft / 5 bedroom house
Coedpoeth	4								2	2		
Froncysyllte	1									1		
Glyn Ceiriog	16	7							4	5		
Gwersyllt	1									1		
Halton	1									1		
Little Acton	1									1		
Llanarmon DC	3		3									
Llay	1									1		
Minera	1									1		
Pen y Cae	4									4		
Penley	1									1		
Pentre Maelor	5		4								1	
Rhosddu	3									2	1	
Rhostyllen	5			1		2			2			
Southsea	4								2	2		
Trefor	6					5			1			
Wrecsam / Wrexham	25			2		1			4	13	4	1
Tan y Fron	9								9			
Y Waun / Chirk	66		3			5			27	31		

SIR CONWY / CONWY COUNTY

Ardal / Area	Nifer/ Number	byngalo 1 llofft / 1 bedroom bungalow	byngalo 2 lofft / 2 bedroom bungalow	byngalo 3 llofft / 3 bedroom bungalow	byngalo 4 llofft / 4 bedroom bungalow	fflat 1 llofft / 1 bedroom flat	fflat 2 lofft / 2 bedroom flat	tŷ 1 llofft / 1 bedroom house	tŷ 2 lofft / 2 bedroom house	tŷ 3 llofft / 3 bedroom house	tŷ 4 llofft / 4 bedroom house
Abergele	8								4	4	
Betws y Coed	3									3	
Betws yn Rhos	1									1	
Capel Curig	2									2	
Cerrigydrudion	14		2			2	2			8	
Conwy	5									5	
Cyffordd Llandudno Junction	15								8	6	1
Dolwyddelan	18	4								13	1
Eglwysbach	2									3	
Llandudno	20									20	
Llanddoged	1									1	
Llanfairfechan	1									1	
Llanfair Talhaiarn	14							3	5	6	
Llangernyw	9	2	1							6	
Llangwm	1									1	
Llannefydd	1									1	
Llanrwst	78		3		1	26			12	35	1
Llansannan	12							3	2	7	
Llysfaen	23								1	18	4
Melin y Coed	1									1	
Moelfre	1									1	
Penmachno	2									2	
Penmaenmawr	14									14	
Rowen	4									4	
St George	1									1	
Talybont	16		8							8	
Trefriw	26					7	1		4	14	